



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 1259 (Cy.126)

2008 No. 1259 (W.126)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Ffioedd a
Dyfarniadau) (Cymru) (Diwygio)
2008

The Education (Fees and Awards)
(Wales) (Amendment) Regulations
2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

These Regulations amend the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007 ("the 2007 Regulations").

Mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud diwygiadau i reoliad 2 a'r Atodlen i Reoliadau 2007 i alluogi preswyliaid yn y tiriogaethau tramor i gael ei drin fel preswyliaid cymwys mewn achosion penodol ac i'w gwneud yn glir y bydd myfyrwyr sy'n symud o'r Ynysoedd i'r Deyrnas Unedig at ddibenion ymgymryd â'u cwrs yn cael eu trin fel rhai sy'n preswyltio fel arfer yn yr Ynysoedd.

Regulations 4 and 5 make amendments to regulation 2 of and the Schedule to the 2007 Regulations so as to enable residence in the overseas territories to be treated as qualifying residence in certain cases and to make clear that students who move from the Islands to the United Kingdom for the purposes of undertaking their course will be treated as ordinarily resident in the Islands.

Ymdrinnir â gwallau teipograffyddol yn rheoliad 2(4)(ch) a 2(6)(ch) o destun Cymraeg Rheoliadau 2007 yn rheoliad 4.

Typographical errors in regulation 2(4)(ch) and 2 (6) (ch) of the Welsh text of the 2007 Regulations are dealt with in regulation 4.

2008 Rhif 1259 (Cy.126)

2008 No. 1259 (W.126)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2008

The Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2008

Gwnaed 5 Mai 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 6 Mai 2008
Yn dod i rym 29 Mai 2008

Made 5 May 2008
Laid before the National Assembly for Wales 6 May 2008
Coming into force 29 May 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach(1) ynddynt hwy gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983(2), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State and now vested(1) in them by sections 1 and 2 of the Education (Fees and Awards) Act 1983(2), make the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 29 Mai 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Fees and Awards) (Wales) (Amendment) Regulations 2008.

(2) These Regulations come into force on 29 May 2008 and apply in relation to Wales.

(1) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 2006/1458 o 8 Mehefin 2006 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(d) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(2) 1983 p.40. Diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p.30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p.56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30), Atodlen 3, paragraff 5; Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 21, paragraff 5 a Deddf Addysg 2005 (p.18), Atodlen 14, paragraff 9. Diwygiwyd Adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, adran 44 ac Atodlen 4.

(1) The functions of the Secretary of State under section 1 of the Education (Fees and Awards) Act 1983, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 2006/1458 with effect from 8 June 2006. The functions of the Secretary of State under section 2 of the Education (Fees and Awards) Act 1983, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales in relation to sections 1 and 2 of the Education (Fees and Awards) Act 1983 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraphs 30 (1) and 30(2)(d) of Schedule 11 of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(2) 1983 c.40. Section 1 was amended by the Education Reform Act 1988 (c.40), Schedule 12, paragraph 91; the Further and Higher Education Act 1992 (c.13), Schedule 8, paragraph 19; the Education Act 1994 (c.30), Schedule 2, paragraph 7; the Education Act 1996 (c.56), Schedule 37, paragraph 57; the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30), Schedule 3, paragraph 5; the Learning and Skills Act 2000 (c.21), Schedule 9, paragraphs 1 and 11; the Education Act 2002 (c.32), Schedule 21, paragraph 5 and the Education Act 2005 (c.18), Schedule 14, paragraph 9. Section 2 was amended by the Teaching and Higher Education Act 1988, section 44 and Schedule 4.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(1).

Diwygio Rheoliadau 2007

3. Mae Rheoliadau 2007 wedi'u diwygio fel a ganlyn.

4. Yn rheoliad 2 —

- (a) ym mharagraff (4) yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor";
- (b) ym mharagraff (4)(ch) o'r testun Cymraeg, yn lle'r geiriau "blentyn ei briod neu ei bartner sifil,", rhodder y geiriau "briod neu bartner sifil ei blentyn,";
- (c) ym mharagraff (6)(ch) o'r testun Cymraeg, yn lle'r geiriau "blentyn ei briod neu ei bartner sifil,", rhodder y geiriau "briod neu bartner sifil ei blentyn,";

(ch) ar ôl paragraff 7, mewnosoder—

"(8) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fod wedi symud o'r Ynysoedd at ddibenion ymgymryd â chwrs i'w ystyried yn berson sy'n preswyllo fel arfer yn yr Ynysoedd."

5. Yn yr Atodlen —

(a) ym mharagraff 3(ch), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(b) yn lle paragraff 6, rhodder—

"6.—(1) Person—

(a) sydd—

- (i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE;
- (ii) yn berson Swisaidd cyflogedig neu'n berson Swisaidd hunangyflogedig;
- (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);
- (iv) yn weithiwr ffin yr AEE neu'n berson hunangyflogedig ffin yr AEE;
- (v) yn berson Swisaidd cyflogedig y ffin neu'n berson Swisaidd hunangyflogedig y ffin; neu

Interpretation

2. In these Regulations "the 2007 Regulations" ("*Rheoliadau 2007*") means the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007(1).

Amendment of the 2007 Regulations

3. The 2007 Regulations are amended as follows.

4. In regulation 2 —

- (a) in paragraph (4) for "European Economic Area, Switzerland and Turkey", substitute "European Economic Area, Switzerland, Turkey and the overseas territories";
- (b) in paragraph (4)(ch) of the Welsh text, for the words "blentyn ei briod neu ei bartner sifil ;", substitute the words, " briod neu bartner sifil ei blentyn ;";
- (c) in paragraph (6)(ch) of the Welsh text, for the words "blentyn ei briod neu ei bartner sifil ;", substitute the words, " briod neu bartner sifil ei blentyn ;";

(d) after paragraph (7), insert —

"(8) For the purposes of these Regulations a person who is ordinarily resident in the United Kingdom as a result of having moved from the Islands for the purpose of undertaking a course is to be considered to be ordinarily resident in the Islands."

5. In the Schedule —

(a) in paragraph 3(d) for "European Economic Area and Switzerland", substitute "European Economic Area, Switzerland and the overseas territories";

(b) for paragraph 6, substitute—

"6.—(1) A person who—

(a) is—

- (i) an EEA migrant worker or an EEA self-employed person;
- (ii) a Swiss employed person or a Swiss self-employed person;
- (iii) a family member of a person mentioned in paragraph (i) or (ii);
- (iv) an EEA frontier worker or an EEA frontier self-employed person;
- (v) a Swiss frontier employed person or a Swiss frontier self-employed person; or

- (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (iv) neu (v);
 - (b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
 - (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.
- (2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o'r is-baragraff hwnnw.";
- (c) ym mharagraff 7(b), yn lle "sydd wedi bod fel arfer yn preswyllo yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir" rhodder "sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";
 - (ch) ym mharagraff 8(1)(ch), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";
 - (d) ym mharagraff 9(1)—
 - (i) ym mharagraff (a)(i), yn lle "blwyddyn academiaidd gyntaf", rhodder "un o flynyddoedd academiaidd";
 - (ii) yn lle paragraff (c), rhodder—

"(c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac";
 - (iii) hepgorer paragraff (ch);
 - (iv) ym mharagraff (d), yn lle "mharagraffau (c) neu (d)", rhodder "mharagraff (c)";
 - (dd) ym mharagraff 10(1)(ch), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";
 - (e) ym mharagraff 11(c), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";
 - (f) ym mharagraff 12(c), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor".
- (vi) a family member of a person mentioned in paragraph (iv) or (v);
 - (b) subject to sub-paragraph (2), is ordinarily resident in the United Kingdom on the first day of the first academic year of the course; and
 - (c) has been ordinarily resident in the territory comprising the European Economic Area, Switzerland and the overseas territories throughout the three-year period preceding the first day of the first academic year of the course.
- (2) Paragraph (b) of sub-paragraph (1) does not apply where the person falls within paragraph (a)(iv), (v) or (vi) of that sub-paragraph.";
- (c) in paragraph 7 (b) for "European Economic Area and Switzerland" substitute "European Economic Area, Switzerland and the overseas territories";
 - (d) in paragraph 8 (1)(d) for "European Economic Area and Switzerland", substitute "European Economic Area, Switzerland and the overseas territories";
 - (e) in paragraph 9 (1)—
 - (i) in paragraph (a) (i) for "the first academic year", substitute "an academic year";
 - (ii) for paragraph (c), substitute—

"(c) has been ordinarily resident in the territory comprising the European Economic Area, Switzerland and the overseas territories throughout the three-year period preceding the first day of the first academic year of the course; and";
 - (iii) omit paragraph (d);
 - (iv) in paragraph (e) for "paragraphs (c) or (d)", substitute "paragraph (c)";
 - (f) in paragraph 10(1)(d) for "European Economic Area and Switzerland", substitute "European Economic Area, Switzerland and the overseas territories";
 - (g) in paragraph 11(c) for "European Economic Area and Switzerland", substitute "European Economic Area, Switzerland and the overseas territories";
 - (h) in paragraph 12(c) for "European Economic Area, Switzerland and Turkey", substitute "European Economic Area, Switzerland, Turkey and the overseas territories".

Jane E Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a
Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

Minister for Children, Education, Lifelong Learning
and Skills, one of the Welsh Ministers.

5 Mai 2008

5 May 2008

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 1259 (Cy.126)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Ffioedd a
Dyfarniadau) (Cymru) (Diwygio)
2008

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 1259 (W.126)

EDUCATION, WALES

The Education (Fees and Awards)
(Wales) (Amendment) Regulations
2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W313/05/08

ON